Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Tre Ficer**
**Cylch Meithrin Tre Ficer Llanymddyfri**
**Y Caban**
**Victoria Crescent**
**Llanymddyfri**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA20 0YE**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Tre Ficer

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Tre Ficer |
| Categori'r gofal a ddarperir | Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Noel Wynne Jones |
| Person â gofal | Catherine Hughes |
| Nifer y lleoedd | 17 (3 oed) 14 (2 oed) |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 22 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun-Gwener 09:00-11:30 Llun-Mercher 12:45-15:15 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhag-weld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r wasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 10/03/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01/10/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Rydym wedi rhoi gwybod i'r unigolyn cyfrifol bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â pheryglon a diogelwch (rheoliad 25) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn.  Nid yw'r asesiadau risg yn sicrhau bod pob ardal a gweithgaredd perthnasol yn rhydd rhag risgiau y gellir eu hosgoi.  Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.  Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Argymhellion

R1 Sicrhau bod pob un o'r arweinwyr yn gwbl gyfarwydd â phob elfen o'r polisi amddiffyn plant

R2 Gwella trefniadau ar gyfer sesiynau grŵp mawr er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn canolbwyntio ac yn cyfrannu'n werthfawr

R3 Sicrhau bod ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau llafar y plant trwy ailadrodd geirfa a phatrymau iaith newydd

R4 Sicrhau bod yr arweinwyr yn mynd i'r afael â'r mater o ddiffyg cydymffurfio

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn hyderus wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol ynglŷn â'u chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, gallant fynegi eu hunain yn glir os ydynt eisiau chwarae tu allan neu os nad ydynt eisiau gwisgo côt i fynd adref. Mae llawer yn cyfrannu'n briodol at gynllunio gweithgareddau a phrofiadau diddorol sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn hyderus bod ganddynt lais cadarn. Er enghraifft, maent yn cyfrannu ar lafar at y cynllunio ac wrth drafod yr helfa foch, gofynnodd un plentyn a fyddai'n gallu dod â'i ysbienddrych i mewn i chwilio am y moch, a chafodd wneud hynny.

Mae rhan fwyaf y plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu'n dda. Mae'r ychydig sy'n cynhyrfu o weld eu rhieni yn gadael yn mynd at yr ymarferwyr am gysur ac yn tawelu'n gyflym. Maent yn dangos parch at eraill wrth iddynt gyrraedd yn y bore. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y plant yn cyfarch eu ffrindiau a'r ymarferwyr yn frwdfrydig yn y Gymraeg wrth gyrraedd. Fodd bynnag, nid yw rhan fwyaf y plant yn dweud plîs a diolch o'u gwirfodd ac ychydig sy'n ymateb yn gadarnhaol wedi iddynt gael eu hannog i wneud.

Mae rhan fwyaf y plant yn rhyngweithio'n hyderus gyda'u cyfoedion a'r ymarferwyr. Wrth ymgynnull ar gyfer bwyd, mae rhan fwyaf y plant yn rhannu'n dda ac yn ymateb yn briodol i sgwrs gyda'r ymarferwyr. Er eu bod yn deall yn dda trwy'r Gymraeg, byr iawn yw ymatebion y rhan fwyaf ar hyn o bryd. Mae'r mwyafrif yn dechrau deall eu teimladau ac yn sensitif i emosiynau pobl eraill, er enghraifft trwy gofleidio ei gilydd wrth ffarwelio ar ddiwedd y sesiwn.

Gan amlaf, mae rhan fwyaf y plant yn dangos diddordeb yn eu dewisiadau chwarae. Er enghraifft, mae bron pob un yn chwilfrydig, yn gwenu ac yn mwynhau eu chwarae wrth iddynt ymgolli mewn gêm cyfateb siapau neu wrth chwilio am foch. Mae rhan fwyaf y plant yn dangos awydd i ddysgu ac i holi cwestiynau. Fodd bynnag, mae llawer o blant yn fyrlymus ac yn gyffrous weithiau mewn sesiynau torfol ac ar adegau yn cael trafferth rheoli eu brwdfrydedd.

Mae gan ran fwyaf y plant sgiliau annibynnol da iawn. Wrth gyrraedd y Cylch, mae'r rhan fwyaf yn gallu dod o hyd i'w henwau a'u lluniau yn hwylus iawn ac yn eu gosod yn hyderus ar y wal i gofnodi eu presenoldeb.

Maent yn mwynhau cael cyfle i fod yn helpwr y dydd ac yn falch iawn o'u cyfrifoldebau. Gall bron pob un ddefnyddio'r tai bach yn annibynnol ac maent yn gallu casglu a gwisgo eu cotiau yn hollol ddiffwdan. Maent yn gallu arllwys dŵr neu laeth o'r jygiau bach yn hwylus iawn ac maent yn datrys problemau'n annibynnol ac effeithiol. Er enghraifft, gwnaeth plentyn arllwys llaeth ar y bwrdd ac aeth plentyn arall i ôl papur o'i gwirfodd er mwyn sychu'r bwrdd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae mwyafrif y plant yn newydd i'r Gymraeg ar fynediad i'r lleoliad. Yn fuan wedi dechrau yno, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa ac ymadroddion cyfarwydd i gyfarch ei gilydd. Yn ogystal, mae llawer o blant yn defnyddio ystod addas o eirfa cyfarwydd yn briodol wrth gyfri, adnabod lliwiau a thrafod y tywydd. Mae llawer o blant yn mwynhau canu wrth ddilyn y symudiadau a geiriau yn llwyddiannus. Mae bron pob plentyn yn gwrando yn dda ar oedolion ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn llwyddiannus yn ystod y sesiwn. Mae'r ychydig o blant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn hollol hyderus wrth sgwrsio gydag oedolion a'u cyfoedion.

Mae rhan fwyaf y plant yn cymryd diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau gwrando ar stori. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gwestiynau a thrafodaethau am y stori mewn grwpiau bach gydag oedolyn. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn dewis llyfrau yn gwbl annibynnol yn yr ardal darllen. Mae sgiliau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y plant yn datblygu'n dda. Er enghraifft, maent yn llunio yn rhydd ar bapur, yn creu marciau ar fwrdd gwyn mawr y tu allan ac yn defnyddio sebon eillio i greu siapiau gyda'i bysedd. Maent yn mynegi ei hunain yn hyderus wrth fod yn greadigol gydag amrywiaeth o offer marcio. Er enghraifft, trwy greu lluniau anifeiliaid y stori Y Feipen Enfawr a chreu hunan bortread gyda phensiliau lliw.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y plant yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer yn cyfri gwrthrychau at bump yn annibynnol a thua hanner y plant yn cyfri at ddeg yn hyderus. Er enghraifft, trwy gyfri nôl o bump i sero yn dorfol gan ddangos ymwybyddiaeth o un yn llai wrth ganu cân y crocodeil. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfarpar cyfri yn effeithiol i gyfri a chyfateb rhif gyda gwrthrych hyd at 10. Er enghraifft, wrth gyfri faint o foch sydd yn y fasged ac yna cyfateb i'r darn cyfri cywir wrth gymryd rhan yn yr helfa drysor. Mae sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarn wrth iddynt ddefnyddio tegan rhaglenadwy yn hyderus gyda chymorth ac wrth ddefnyddio offer i reoli teganau o bell yn annibynnol.

Mae llawer o blant yn datrys problemau yn hyderus iawn, er enghraifft wrth ddewis offer addas yn y gegin fwd i lenwi sosbenni a thollti dŵr ac wrth drafod pa ddillad sydd yn addas ar gyfer gwahanol dywydd yn ystod amser cylch. Mae bron pob plentyn yn datblygu sgiliau corfforol cadarn wrth iddynt ddringo, rhedeg, taflu peli a reidio beic yn yr ardal tu allan. Mae eu sgiliau manwl mân yn datblygu yn effeithiol wrth dorri gyda siswrn a defnyddio twesers a magnedau i godi offer mân.

Mae bron pob un plentyn yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn llwyddiannus. Maent yn gwrtais a pharchus gyda'i gilydd ac yn feddylgar wrth rannu, cymryd tro a chydweithio wrth chwarae. Mae bron pob plentyn yn hapus iawn wrth chwarae a dysgu gyda'i gilydd.

**Gofal a datblygiad: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles y plant yn dda. Maent yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac yn darparu bwydydd iach iddynt amser byrbyrd. Mae gan bob ymarferwr dystysgrif hylendid bwyd cyfredol ac ar y cyfan maent yn dilyn prosesau cadarn. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion nid yw'r weithdrefn bob tro yn cael ei weithredu yn hollol gyson. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn hyrwyddo diogelwch rhag tân yn effeithiol. Maent yn profi'r larymau tân ac yn cadw cofnodion trefnus eu bod cynnal driliau tân yn

rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn cadw meddyginiaeth yn briodol ac yn rhoi gofal pwrpasol i blant sydd â chyflyrau meddygol.

Mae'r arweinwyr wedi mynd ati i greu ardal lled bwrpasol ar gyfer newid cewyn ac mae hyn yn sicrhau bod modd parchu preifatrwydd plant yn effeithiol wrth newid cewyn. Mae gan yr arweinwyr bolisi newid cewyn ond nid yw'r polisi yn adlewyrchu'n llwyr y weithdrefn y mae'r ymarferwyr yn ei dilyn.

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod ganddynt bolisi amddiffyn plant cadarn ac mae'n nodi'n gywir y gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Cafodd y polisi ei adolygu yn ddiweddar iawn gan yr unigolyn cyfrifol a'r person â gofal. Mae pob ymarferwr yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd ac yn gwbl hyderus i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol pe bai angen. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn cyfrifol yr un mor hyderus o'r weithdrefn a nodir yn y polisi. Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac maent yn destun pryder.

Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn gweithio yn unol â pholisi'r lleoliad ar reoli ymddygiad ac yn llwyddo i wneud hyn yn gadarnhaol. Maent wedi derbyn hyfforddiant pellach ar strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn canmol plant am eu hymdrechion ac yn dathlu llwyddiannau yn gyson. Er enghraifft, maent yn canmol plant am dacluso ac am eu sgiliau dal pensil da. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les plant. Fodd bynnag, nid yw pob ymarferwr pob tro yn ymyrryd yn ddigon cynnar er mwyn tawelu lleiafrif o blant wrth iddynt gynhyrfu a tharfu ar eraill mewn sesiynau grŵp mawr.

Mae'r person â gofal yn sicrhau bod ganddi fanylion angenrheidiol y plant ynghyd â chaniatâd ar gyfer triniaethau meddygol mewn argyfwng. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn, yn deall ac yn bodloni eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr hefyd yn gweithio'n effeithiol gyda'r ysgol ac asiantaethau allanol er mwyn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.

Mae gan bob un o'r ymarferwyr ymlyniadau da iawn gyda'r plant, a hynny'n creu ethos cartrefol iawn.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n bwrpasol ac yn paratoi ystod eang o brofiadau cyffrous ac ysgogol i ddatblygu medrau yr holl blant yn effeithiol. Mae syniadau a dewisiadau'r plant yn cael eu hystyried yn dda yn y broses gynllunio ac wrth iddynt wneud dewisiadau yn ystod y sesiynau. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maent yn ymateb i ofynion a diddordebau'r plant yn effeithiol. Mae prosesau o ran arsylwi ac asesu cynnydd plant yn drylwyr ac yn cael effaith bositif ar eu medrau. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus wrth gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn cynnal cyfarfodydd buddiol gyda rhieni i drafod cynnydd eu plant yn rheolaidd trwy rannu e-lyfrau o'u profiadau disglair

Mae'r berthynas hyfryd a chyfeillgar sydd rhwng yr oedolion a'r plant yn sicrhau awyrgylch hapus a phositif o fewn y lleoliad. Mae hyn yn cael effaith da ar ddyfalbarhad y plant wrth gwblhau tasgau ac yn eu cefnogi i ganolbwyntio am

gyfnodau addas. Mae'r ymarferwyr yn holi plant yn fedrus yn unigol ac o fewn grwpiau bach, sy'n ymestyn eu dealltwriaeth yn gadarn ac yn datblygu eu medrau meddwl ymhellach.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn llwyddiannus ar draws yr holl ardaloedd dysgu. Mae llawer o lyfrau, offer ysgrifennu a chyfleoedd i ymarfer medrau rhifedd i'w gweld bron ym mhob ardal dysgu. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu medrau gan gynnwys defnyddio iaith a chysyniadau mathemategol yn naturiol yn eu chwarae. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus i gyfathrebu. Er enghraifft, maent yn defnyddio apiau ar lechan gyfrifiadur i ddatblygu eu medrau cyfri at ddeg yn ogystal â thynnu lluniau.

Mae'r defnydd buddiol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau plant yn rhan werthfawr o'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn trefnu ymweliadau â'r ardd fotaneg leol a'r orsaf drên yn y pentref fel rhan o'u gwaith thema. Yn ogystal, gwneir defnydd da o ymwelwyr i mewn i'r lleoliad fel milfeddyg a phlismon er mwyn dysgu'r plant am bobl sydd yn ein helpu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn dda. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd cyson i blant ddysgu am bwysigrwydd rhannu a dangos parch at ei gilydd yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r plant yn cael profiadau buddiol fel tyfu llysiau a blodau yn yr ardd er mwyn dysgu am sut i barchu a gofalu am bethau byw.

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn gadarn ac mae ethos Cymreig gref o fewn y lleoliad. Mae defnydd da o ganeuon cyfarwydd yn cefnogi hyn yn dda ac mae bob sgwrs, chyfarwyddiadau, a gweithgaredd yn llwyddiannus yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr pob tro yn rhoi digon o gyfleoedd i blant ailadrodd geirfa a phatrymau iaith newydd yn ddigon rheolaidd. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n atgyfnerthu'r diwylliant Cymreig yn gadarn. Er enghraifft, trwy drafod chwaraewyr lleol sy'n chwarae dros Gymru yng nghwpan y byd rygbi yn Siapan ac wrth gymryd rhan mewn cystadleuaeth gelf yn y ffair ddefaid leol yn flynyddol.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau datrys problemau buddiol i'r plant er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau annibyniaeth a medrau meddwl yn effeithiol. Yn ogystal gosodir tasgau penodol a phwrpasol i'r plant feddwl am ddatrys problemau pob dydd, er enghraifft wrth benderfynu beth i'w wisgo ar gyfer diwrnod gwlyb neu sut y gallent gael hyd i'r moch sydd wedi mynd ar goll.

### Yr amgylchedd: Digonol

Mae'r ardal tu fewn a thu allan yn groesawgar iawn, yn lân ac yn cynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Er gwaethaf cyfyngiadau'r amgylchedd o ran maint, mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r lle sydd ganddynt yn dda i gwrdd ag anghenion y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd yn fedrus i hyrwyddo llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus.

Mae'r celfi a'r adnoddau yn addas at oed a chamau datblygiad y plant, a hynny'n creu synnwyr o berthyn. Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr wedi creu corneli dysgu pwrpasol sy'n cynnig cyfleoedd da i blant ddatblygu sgiliau elfennol. Er hynny, am fod yr amgylchedd yn gyfyng, nid yw bob amser yn rhwydd i bob plentyn fanteisio ar bopeth yn gwbl hwylus.

Mae’r arweinwyr wedi sicrhau bod trefniadau diogelu safle priodol mewn lle. Er enghraifft, yn ystod sesiynau, mae ymarferwyr yn sicrhau bod y drysau a’r giatiau allanol ar gau ac maent yn gofyn i bob ymwelwr lofnodi’r llyfr ymwelwyr. Mae gan yr ymarferwyr system gadarn yn ei lle i sicrhau bod yr holl blant yn gadael ar ddiwedd y dydd gyda rhiant neu warchodwr sy’n wybyddus iddynt. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y caban yn cael ei gynnal a’i gadw’n briodol ac yn cadw cofnod trefnus o unrhyw waith neu wiriadau a wneir.

Mae’r arweinwyr wedi llunio asesiadau risg sylfaenol iawn ar gyfer rhan fwyaf yr ardaloedd gan gynnwys y ffrâm ddringo newydd. Fodd bynnag, nid yw’r asesiadau risg sy’n bodoli yn hollol effeithiol gan nad yw pob ardal neu weithgaredd a allai beri risg wedi cael ei hasesu’n briodol. Er enghraifft, y daith i’r dref a’r weithgaredd gyda’r eli siafo. Yn ogystal, nid yw’r ffurflen wirio dyddiol yn hollol effeithiol. Er enghraifft, roedd y pared rhwng y gornel chwarae rôl a’r ardal farcio yn rhydd ac felly roedd modd ei ysgwyd yn rhwydd. Ni chafodd hynny ei gofnodi na’i drwsio.

Er bod arweinwyr wedi gosod thermomedr i fonitro’r tymheredd, nid yw ymarferwyr bob amser yn sicrhau eu bod yn cwrdd â’r gofynion cenedlaethol am fod y tymheredd yn disgyn o dan 18 gradd Celsius ar adegau.

Mae’r arweinwyr wedi datblygu’r ardal hon allanol yn llwyddiannus er mwyn cynnig cyfleoedd da i blant ddysgu ac i ddatblygu eu medrau a’u hannibyniaeth. Er enghraifft, gwnaethant gynnwys yr ardal allanol yn effeithiol wrth gynllunio’r helfa foch.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn sy’n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth safonol i ddysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’n arwain staff yn effeithiol ac yn gwneud y gorau o’u harbenigeddau a’u cryfderau ar gyfer tasgau penodol. Mae’r tîm yn cyd-dynnu yn dda i greu darpariaeth o safon uchel sydd yn diddori’r plant ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau, yn enwedig eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae’r pwyllgor, yr unigolyn cyfrifol a’r ymarferwyr yn weithgar ac yn ymateb yn dda i awgrymiadau’r person â gofal a swyddogion asiantaethau allanol. Mae’r person â gofal yn cydweithio yn grefftus i greu ymdeimlad o berthyn ac yn cynnwys rhanddeiliaid yn llwyddiannus ym mywyd a gwaith y lleoliad. Mae’r ysbryd o dîm yn cael effaith positif ar ddatblygiad y gwasanaeth.

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel o’u hunain a’r ymarferwyr. Maent yn defnyddio prosesau hunanwerthuso yn llwyddiannus i adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella yn effeithiol. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau ar gyfer gwelliant yn llwyddiannus ac o ganlyniad, mae llawer o ddatblygiadau gwerthfawr wedi eu cwblhau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Esiampl dda o hyn yw’r ardal tu allan sydd wedi datblygu’n dda er mwyn darparu amrywiaeth eang o brofiadau gwerth chweil i blant ar draws pob maes dysgu. Mae gweithdrefnau monitro wedi esblygu’n dda i gynnwys system gweithwyr allweddol. Mae hyn wedi gwella defnydd o amser ac wedi cryfhau’r broses o symud plant yn eu blaen yn fwy effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn dîm sefydlog iawn ac yn brofiadol a chymwys. Mae’r arweinydd yn eu goruchwylio yn effeithiol ac yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad yn

rheolaidd.  Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi hyn ac yn gweld ei werth er mwyn parhau i ddysgu a chynnig gwelliannau i'r gwasanaeth.  Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant pellach ar wella darpariaeth yn yr ardaloedd chwarae, rheoli ymddygiad a datblygu medrau Cymraeg.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus gydag athrawes gefnogol yr awdurdod lleol a swyddog y Mudiad Meithrin.  Mae mewnbwn gan asiantaethau allanol wedi bod o fudd i'r ymarferwyr wrth gael cefnogaeth arbenigol i ddatblygu strategaethau positif i gefnogi plant.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar ddeilliannau'r plant.  Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o grantiau a chyllid ar gyfer prynu adnoddau i gefnogi profiadau dysgu'r plant, trefnu ymweliadau gwerthfawr ac i ddarparu hyfforddiant perthnasol i ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn gweithio yn effeithiol gyda'r ysgol leol i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.  Maent yn rhannu gwybodaeth bwysig am ddeilliannau'r plant gyda'r ysgol er mwyn iddynt adeiladau ar eu medrau yn llwyddiannus ar ôl symud i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.  Mae cydweithio effeithiol iawn rhwng y cylch a rhieni.  Mae gweithgareddau gwerthfawr yn atgyfnerthu'r dysgu wrth fynd a 'Doti y ci' adref ar ei wyliau a bagiau 'chi a fi' gyda gweithgareddau dysgu yn y cartref.   Mae'r lleoliad yn ystyried unrhyw awgrymiadau gan rieni yn effeithiol wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2019